Llywodraeth Cymru
Welsh Government




# Adolygiad Thematig y Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub 2017

‘Dysgu gwersi er mwyn osgoi digwyddiadau sy’n peryglu diogelwch’ – Pa mor dda y mae Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn dysgu gwersi yn sgil digwyddiadau er mwyn gwella diogelwch y cyhoedd ac ymladdwyr tân.

# Adolygiad Thematig y Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub:

Des Tidbury QFSM, Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub

Kevin Pottinger, Ymgynghorydd Tân ac Achub Cynorthwyol Llywodraeth Cymru

© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2017 WG32092 ISBN digidol 978 1 4734 9868 6

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Meysydd Allweddol | 3 |
| Methodoleg | 3 |
| Crynodeb Gweithredol | 4 |
| Canfyddiadau Allweddol | 6 |
| Dysgu Gweithredol | 7 |
| Dysgu er mwyn gwella Diogelwch y Cyhoedd | 8 |
| Casglu Gwybodaeth / Ôl-friffio | 10 |
| Monitro Safle'r Digwyddiad | 11 |
| Iechyd a Diogelwch | 13 |
| Dysgu a Datblygu | 14 |
| Cydnabyddiaeth | 17 |
| Argymhellion | 18 |
| Manylion ymweliadau a wnaed | 19 |

# Cyflwyniad

Ym mis Mehefin 2016 datblygodd y Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub gynigion i gynnal adolygiad thematig o'r tri Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod(au)) yng Nghymru. Roedd prif ffocws yr adolygiad yn seiliedig ar nifer o ddogfennau uchel eu proffil a gododd bryderon ynghylch yr angen i Wasanaethau Tân ac Achub ledled y Deyrnas Unedig wella'r trefniadau i atal damweiniau drwy ddysgu'n effeithiol yn sgil digwyddiadau blaenorol.

Mae'n well rhannu gwersi a ddysgir o weithgareddau gweithredol gyda staff cyn gynted â phosibl, ac yn ehangach na hynny lle bo hynny'n briodol, er mwyn lleihau risg yn effeithlon ac yn effeithiol. Os mabwysiadir proses gyson, bydd hyn yn galluogi i Awdurdodau Tân ac Achub wella perfformiad mewn digwyddiadau, ymdopi â newidiadau yn y dyfodol yn yr amgylchedd gweithredol, datblygu ac arloesi er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau i'r cyhoedd a gwella diogelwch eu hymladdwyr tân[1]. Pan fo gwersi i'w dysgu o ddigwyddiadau yn cael eu crynhoi fel hyn, gallant gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r hyn a aeth o'i le neu a allai fynd o'i le eto. 'Yr her yw dysgu cymaint â phosibl ynghylch achosion damweiniau a damweiniau fu bron â digwydd, er mwyn osgoi eu hailadrodd'[2].

Fel y nodwyd yn gynharach, daw'r adolygiad thematig hwn ar adeg pan fo nifer o ddogfennau allweddol wedi'u cyhoeddi yn gysylltiedig â gwersi sefydliadol o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub, er eu bod i raddau helaeth yn canolbwyntio ar ddiogelwch ymladdwyr tân. Un darn penodol o waith oedd hwnnw a wnaed gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), y Prif Ymgynghorwyr Tân ac Achub yng Nghymru a Lloegr a Phrif Arolygwr Gwasanaeth Tân ac Achub Ei Mawrhydi yn yr Alban a arweiniodd at gyhoeddi 'Health and Safety in the Fire and Rescue Service – Embedding lessons learned' ym mis Medi 2015. Anogai'r ddogfen honno Awdurdodau Tân ac Achub i fyfyrio ar y graddau y mae gwersi allweddol wedi'u dysgu a, lle bo'n briodol, sut mae'r gwersi hynny wedi dylanwadu ar newid sefydliadol a chefnogi gwersi sefydliadol i'w dysgu ar draws y sbectrwm o weithdrefnau, polisïau ac athrawiaethau, hyfforddiant, ymarfer a diwylliant lleol.

Ers hynny, mae'r rhaglen Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol wedi lansio'r Prosiect Dysgu Gweithredol Cenedlaethol, y mae cyfeiriad at ran ohono yn yr adroddiad hwn. Bwriedir i'r prosiect ganolbwyntio ar gyflwyno dulliau arfer da er mwyn casglu ac asesu gwersi i'w dysgu o weithgarwch gweithredol o fewn Awdurdodau Tân ac Achub unigol. Y mae hefyd yn rhoi llwybr er mwyn rhannu'r gwersi hynny rhwng gwasanaethau tân ac achub ledled y DU gan gynnwys y gymuned tân ehangach.

Mae'r Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliadau gael trefniadau ar gyfer cynllunio, trefnu, rheoli, monitro ac adolygu'r mesurau ataliol ac amddiffynnol yn effeithiol. 'Mae hi felly'n bwysig bod gwasanaethau tân ac achub yn sefydlu trefniadau effeithiol er mwyn ymwreiddio gwersi arwyddocaol i'w dysgu yn eu sefydliadau. Mae hyn yn cynnwys cael prosesau sy'n ei gwneud hi'n bosibl i adnabod

[1] Rhaglen Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol, Canllawiau Arfer Da ar gyfer Dysgu Gweithredol Cenedlaethol, Chwefror 2016.
[2] Drupsteen and van Kampen, gwefan OSH Wiki.

materion a'u codi fel problemau, eu huwchgyfeirio yn ôl yr angen, rheoli blaenoriaethau a throi gwersi newydd a ddysgir yn arferion bob dydd'[3].

Er mai marwolaethau trasig ymladdwyr tân sydd wedi ysgogi llawer o'r awydd i wella dysgu o fewn gwasanaethau tân ac achub, mae'r adolygiad hwn hefyd yn cyfeirio at yr angen i ddysgu gwersi er mwyn gwella diogelwch y cyhoedd yn ehangach hefyd, gan ehangu'r ffocws ar rôl gynyddol ataliaeth o fewn y Gwasanaeth drwy hynny.

*'Mae dysgu yn golygu caffael gwybodaeth, ymddygiadau, sgiliau, gwerthoedd neu hoffterau newydd, neu addasu rhai presennol'* [4] *Mae sefydliad dysgu yn creu, yn casglu, yn trosglwyddo ac yn symud gwybodaeth er mwyn ei alluogi i addasu i amgylchedd sy'n newid* [5]

## Meysydd Allweddol

Dyma brif feysydd allweddol yr adolygiad hwn:

- Sut mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn dadansoddi digwyddiadau diogelwch, yn cynnwys damweiniau fu bron â digwydd, o'r amgylcheddau gweithredol a hyfforddiant (o fewn ei sefydliad ei hun a'r tu allan iddo) a defnyddio'r wybodaeth hon wrth ffurfio polisïau, gweithdrefnau a hyfforddiant diwygiedig lle bo hynny'n briodol?
- Sut mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn blaenoriaethu gwersi o'r fath ac yn sicrhau eu bod yn cael eu lledaenu mewn modd effeithiol ac amserol?
- Sut mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn dadansoddi achosion tanau (yn cynnwys achosion gwaelodol) ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn sail wrth ddylunio rhaglenni diogelwch tân?
- Sut mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn defnyddio ei ddadansoddiad o achosion tanau i fireinio'i ddealltwriaeth o'r rheiny a chanddynt y risg fwyaf o dân, ac addasu ffocws ei raglenni diogelwch tân lle bo hynny'n briodol?
- Sut mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn rhannu gwersi a ddysgwyd o fewn ei sefydliad ei hun gyda phartneriaid allanol lle bo hynny'n briodol?

## Methodoleg

Man cychwyn yr adolygiad oedd astudiaeth desg o ddata, gweithdrefnau a gwybodaeth y tri Awdurdod oedd yn ymwneud â maes yr ymchwiliad; gwnaed hyn ym mis Rhagfyr 2016 ac ar ddechrau 2017. Yn dilyn yr astudiaeth ddesg cafwyd ymweliadau ar wahân i bob un o'r tri Awdurdod; gwnaed hyn ym mis Mawrth ac Ebrill 2017. Roedd yr ymweliadau hyn yn caniatáu i'r Tîm Adolygu ganolbwyntio ar drafodaethau manwl gyda staff gweithredol mewn gorsafoedd tân amrywiol sydd yn gweithio o dan wahanol systemau dyletswydd, swyddogion arweiniol perthnasol, staff sydd yn gweithio o dan y system dyletswydd hyblyg (FDS), rheolwyr strategol, unigolion o gyrff

3 Datganiad ar y Cyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Prif Ymgynghorwyr Tân ac Achub yng Nghymru a Lloegr a Phrif Arolygydd Gwasanaeth Tân ac Achub yr Alban EM, Health and Safety in the Fire and Rescue Service – Embedding lessons learned, Hawlfraint y Goron, 2015.
4 Argyris: "Overcoming Organisational Defences: Facilitating organisational learning", Allyn and Bacon, Boston, 1990
5 Senge, PM: "The Fifth Discipline; The Art and Practice of the Learning Organisation", Doubleday, New York, 1990.

cynrychioladol ac arbenigwyr. Yn ystod y trafodaethau hyn, darganfu'r Tîm Adolygu bod staff o'r tri Gwasanaeth yn fodlon rhannu eu profiadau a bod yn agored ac yn onest yn eu hymatebion i gwestiynau ynghylch y pwnc dan sylw.

Yn ystod y trafodaethau, ystyriodd y Tîm Adolygu pa mor dda y cafodd y wybodaeth a'r gwersi i'w dysgu o'r digwyddiadau mwyaf arwyddocaol eu cyfathrebu, gan ganolbwyntio'n bennaf ar farwolaethau'r ymladdwyr tân a ganlyn;

- Yr Ymladdwr Tân Stephen Hunt, Paul's Hair and Beauty World, Oldham Street, Manceinion. 13 Gorffennaf, 2013.
- Yr Ymladdwr Tân Ewan Williamson, Balmoral Bar, Dalry Road, Caeredin. 12 Gorffennaf 2009.

Fodd bynnag, yn ystod yr ymweliadau, trafodwyd digwyddiadau eraill hefyd er mwyn ceisio rhoi mwy o gyd-destun ynghylch sut roedd pob sefydliad yn prosesu gwybodaeth ddysgu fewnol ac allanol. Yn ystod y trafodaethau hyn, cyfeiriodd staff at nifer o ddigwyddiadau lle bu farw ymladdwyr tân, yn benodol Shirley Towers, Harrow Court, Blaina ac Atherstone on Stour.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y dulliau a fabwysiadwyd ledled Cymru i 'ddysgu gwersi i osgoi digwyddiadau sy'n peryglu diogelwch'. O'r herwydd, nid oes unrhyw gyfeiriadau at Awdurdodau penodol yn y ddogfen hon, ond mae'r Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub wedi ysgrifennu'n ddiweddarach at bob Prif Swyddog Tân yn nodi unrhyw feysydd sy'n destun pryder ac elfennau sydd wedi'u hamlygu fel arfer da sy'n berthnasol i'w Gwasanaeth eu hunain.

## Crynodeb Gweithredol

Drwy'r ymweliadau â phob Awdurdod nodwyd nifer o ddulliau dysgu sefydliadol, ond ar y cyfan, gwelwyd themâu cyffredin amlwg o ran pa mor effeithiol yr oeddent wrth reoli dysgu o'r gwersi hynny a chyfathrebu'r gwersi. Bydd pob un o'r Awdurdodau'n cynnal dadansoddiad o'r bylchau wrth dderbyn gwybodaeth ynghylch gwersi cenedlaethol i'w dysgu. Ymddengys fod y dull hwn yn effeithiol, er y gellid gwella'r raddfa amser wrth wneud y gwaith cychwynnol hwn gan sicrhau bod cyfrifoldeb wedi'i ddyrannu'n glir, bod canfyddiadau wedi'u cofnodi a bod unrhyw newidiadau'n cael eu rhannu ar draws yr holl sefydliad mewn modd amserol. Gan amlaf, defnyddiwyd dadansoddiad o'r bylchau er mwyn craffu ar y ddau achos diweddaraf lle bu farw ymladdwyr tân yn y DU, er ei bod hi'n anodd iawn canfod unrhyw dystiolaeth bod gwersi a ddysgwyd wedi'u lledaenu fawr pellach na lefel yr uwch reolwyr. Fodd bynnag, roedd peth tystiolaeth bod rheolwyr canol mewn un Awdurdod wedi derbyn peth gwybodaeth a gwersi o'r digwyddiadau trasig hyn yn ystod eu cyfarfodydd diweddaru arferol. Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth yn yr un o'r Awdurdodau fod cynllun mewnol cydlynus wedi cael ei ffurfio i rannu'r gwersi hyn drwy broses strwythuredig ar adeg yr adolygiad. Nid oedd y rhan fwyaf o staff a gyflawnai rolau gweithredol wedi gweld unrhyw wersi a oedd yn deillio o'r naill ddigwyddiad na'r llall. Dywedodd yr aelodau o staff a oedd yn ymwybodol ohonynt eu bod wedi dilyn y digwyddiadau yn sgil diddordeb proffesiynol, gyda nifer ohonynt yn crybwyll y cyfryngau cymdeithasol, cydweithwyr mewn Awdurdodau eraill,

Undeb y Brigadau Tân, neu gyfuniad o'r tri. Roedd hi'n ddiddorol nodi yn ystod trafodaethau gyda staff eu bod yn fwy tebygol o gofio gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau cynharach megis Shirley Towers a Harrow Court. Roedd hi'n glir fod staff gweithredol yn tueddu i gofio mwy o wybodaeth a gwersi pan gafwyd cyflwyniadau a oedd yn adrodd 'stori' glir a chryno i gyd-fynd â'r trafodaethau.

Fodd bynnag, er mwyn deall yn iawn faint mae'r gwersi wedi'u hymwreiddio, dylai Awdurdodau ystyried cynnal gwiriadau sicrwydd ansawdd rheolaidd. Yng nghyswllt deall yn llawn sut y dysgir gwersi, mae hi hefyd yn ddiddorol gweld y dulliau amrywiol o raeadru gwybodaeth drwy bob un o'r tri sefydliad. Yn gyffredinol, roedd y cyfryngau a ddefnyddiwyd yn debyg iawn, ond mae'n werth nodi'r ffafriaeth gynyddol tuag at Dechnoleg Gwybodaeth, a'r pwyslais ar e-ddysgu. Er yr ystyrir bod hyn yn effeithiol iawn yn aml, dylai'r Awdurdodau ystyried amrywiaeth eu sefydliadau a chofio bod angen mynediad, amser a'r gallu i ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth yn effeithiol.

Mae gan bob un o Awdurdodau Tân ac Achub Cymru bolisïau clir ar fonitro a sicrwydd gweithredol ac er bod y fethodoleg o ymgymryd â hyn, a'i gofnodi, yr un peth yn fras, gellid argymell eu bod yn ceisio mabwysiadu dull cyffredin, drwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol (NIC)[6]. Bydd cyflwyniad y Prosiect Dysgu Gweithredol Cenedlaethol gan y tîm rhaglen Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol yn sicr o fod o gymorth. Fodd bynnag, drwy arloesi'n lleol yn un o'r Awdurdodau yr ymwelwyd ag ef cynhyrchwyd system TG a allai ffurfio sail ar gyfer llwyfan gyffredin i'w rhannu ledled Cymru yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod ymhlith Gwasanaethau Tân ac Achub yn y DU sy'n treialu'r Prosiect Dysgu Gweithredol Cenedlaethol hefyd; mae hyn yn awgrymu, yn dilyn treialon llwyddiannus, y gellid mabwysiadu dull cydgysylltiedig i wella gwersi sefydliadol ar draws y tri gwasanaeth. Er yr ymddengys fod monitro Gweithredol wedi'i ymwreiddio'n dda yn y tri Awdurdod, gellid gwneud mwy i wella'r trefniadau ar gyfer casglu a lledaenu gwersi a ddaw o sesiynau ôl-briffio poeth. Mae angen gwella'r broses o fwydo gwybodaeth yn ôl i unigolion neu griwiau sydd wedi codi materion o bwys a allai fod wedi arwain at newidiadau mewn polisïau neu weithdrefnau hefyd.

Cydlynir strategaethau ar gyfer dysgu yn sgil digwyddiadau tân domestig drwy ymagwedd Cymru gyfan, a gysylltir drwy'r Grŵp Diogelwch Cartrefi Cymru Gyfan. Mae adroddiadau cynhwysfawr wedi cael eu cynhyrchu gan yr Awdurdodau er mwyn canfod tueddiadau/ffactorau i sefydlu a yw methodoleg targedu traddodiadol yn cefnogi gwell diogelwch tân mewn anheddau preifat. Yn ogystal â hyn, mae'r fethodoleg Gwersi ynghylch Ymddygiad Tân a Gwacáu mewn Anheddau (LIFEBID) wedi cael ei mabwysiadu ar draws y tri Awdurdod. Mae'r prosiect ymchwil hwn a gychwynnwyd yn wreiddiol rhwng Prifysgol Greenwich a Gwasanaeth Tân ac Achub Caint bellach yn datblygu ar draws y tri gwasanaeth yng Nghymru. Mae'r prosiect yn ceisio casglu

[6] Pwyllgor Materion Cenedlaethol a sefydlwyd i greu gwelliannau pellach o ran cydweithio, darpariaeth gwasanaeth a gwelliannau parhaol i wasanaethau. Ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r sector cyhoeddus megis pwysau economaidd, cyllidebau llai a mwy o ddisgwyliadau gan y cyhoedd. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys Aelodau Etholedig a Swyddogion o bob un o'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.

gwybodaeth bellach o danau mewn anheddau ac ymchwilio'n fanylach i ymddygiad dynol mewn tân gyda'r bwriad o ddylanwadu'n well ar strategaeth gyfredol a thargedu rhaglenni diogelwch tân. Yn y pendraw, gobeithir y bydd y cyfoeth o wybodaeth a gesglir drwy'r dull manwl hwn yn datblygu ac yn ysgogi newidiadau i bolisi diogelwch tân. Yng nghyswllt gwersi penodol yn y maes diogelwch cymunedol, roedd hi'n amlwg drwy gydol yr adolygiad fod Staff Dyletswydd yn ôl y Galw (RDS) yn llawer llai hyddysg ac ymwybodol o gymharu â'u cydweithwyr Ar Ddyletswydd.

## Canfyddiadau Allweddol

- Mae pob Awdurdod wedi cydnabod pwysigrwydd dadansoddi digwyddiadau diogelwch ac mae prosesau'n datblygu er mwyn cofnodi'r hyn a ddysgir.
- Dadansoddir gwersi a ddysgir yn sgil digwyddiadau arwyddocaol gan yr Awdurdodau, ond gellir gwella'r modd y cofnodir y gwaith cychwynnol a pha mor effeithiol ac amserol yw'r gwersi a ddysgir gan y staff.
- Gellir cael mwy o fudd drwy rannu datblygiadau o fewn pob Awdurdod o ran dysgu sefydliadol. Gallai grwpiau o fewn yr NIC gyflwyno newidiadau er mwyn cael dull cyffredin a allai greu arbedion effeithlonrwydd.
- Mae cyfathrebu ynghylch Iechyd a Diogelwch a gwybodaeth o fewn yr Awdurdodau yn dda ar y cyfan, ond argymhellir y dylid cynnal dadansoddiad pellach o'r graddau y mae staff gweithredol yn derbyn ac yn cadw'r wybodaeth hon.
- Mae'r broses o ddysgu yn sgil tanau mewn anheddau wedi elwa ar ddadansoddiad manwl Awdurdodau Tân ac Achub; mae hyn yn parhau i ddylanwadu ar eu strategaethau diogelwch cartrefi a'u siapio.
- Dylai Awdurdodau Tân ac Achub sicrhau cydbwysedd priodol rhwng hyfforddiant gweithredol realistig a'r amrediad o ddyletswyddau anweithredol eraill y mae staff bellach yn eu cyflawni.
- Mae prosesau ôl-friffio diffiniedig wedi'u sefydlu ym mhob Awdurdod, ac fe geir tystiolaeth dda i ddangos defnydd o'r prosesau hynny yn dilyn digwyddiadau arwyddocaol. Awgrymir y dylid gwella'r dulliau cofnodi ar gyfer sesiynau ôl-friffio poeth lleol sy'n digwydd yn amlach, fel bod modd i'r wybodaeth hon ychwanegu at waith ehangach i ddadansoddi tueddiadau a chreu gwell strwythur i'w lledaenu.
- Rhaid gwella'r trefniadau ar gyfer bwydo gwybodaeth yn ôl i unigolion neu griwiau sydd wedi codi materion allweddol a allai fod wedi arwain at newidiadau i bolisïau neu weithdrefnau.
- Dylai Awdurdodau ddatblygu systemau cadarn sy'n cadarnhau ac yn cofnodi unrhyw newidiadau a ddaw yn sgil y broses ddysgu weithredol. Dylid cynnal adolygiadau cyfnodol hefyd o unrhyw newidiadau hefyd, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau wedi'u hymwreiddio.
- Dylai Awdurdodau sicrhau bod gan staff goruchwyliol gweithredol sy'n gweithio mewn rolau arbenigol raglenni cynnal sgiliau gweithredol cadarn i sicrhau eu bod hwythau'n profi sefyllfaoedd hyfforddi realistig. Bydd hyn hefyd yn sicrhau fod ganddynt fynediad at yr holl wersi a ddysgir o'r amgylchedd gweithredol.

## Dysgu Gweithredol

O ddysgu yn sgil gweithgarwch gweithredol yn gyson a gweithredu'n unol â'r hyn a ddysgir yn gyflym ac yn effeithiol, bydd yr Awdurdodau Tân ac Achub yn parhau i wella eu record o ran perfformiad a diogelwch. Mae hyn yn bwysig iawn oherwydd, ar draws y tri Awdurdod yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, mae cyfraddau is o ddigwyddiadau wedi creu gostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion lle bydd ymladdwyr tân yn dod i gysylltiad â digwyddiadau amrywiol lle ceir risg ddifrifol.

Mae dysgu o weithgarwch gweithredol yn golygu mwy na nodi'r hyn a aeth yn dda neu'r hyn a allai fod wedi mynd o'i le yn unig. Mae'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol wrth bennu sut y gellid gwneud pethau yn y dyfodol, ond mae'n rhaid gweithredu rhyw ffurf ar newid sy'n sicrhau na fydd gweithrediadau o'r fath yn cael eu hailadrodd. Rhaid iddo hefyd gynnwys rhoi cyfle i staff fyfyrio a deall yr wybodaeth i'w dysgu fel y byddant yn gwybod sut i gymryd camau i leihau risg yn y dyfodol. Y mae hefyd y golygu bod yn rhaid i sefydliad ymwreiddio newidiadau, fel y bydd mesurau i atal ailadrodd yn aros yn eu lle, hyd yn oes bydd rheolwyr newidiadau allweddol yn symud neu'n gadael y sefydliad[7].

Mae'n glir o'r adolygiad fod gan yr Awdurdodau Tân ac Achub nifer o systemau rheolaethol sydd wedi'u hen sefydlu er mwyn cofnodi a lledaenu hysbysiadau diogelwch a gweithredu ar unwaith ymhlith y staff. Mae'r rhain hefyd yn cynnwys prosesau i rannu gwersi i'w dysgu; yn anffodus bydd y staff yn methu'r neges ar adegau.

Ymddengys fod hyn yn digwydd pan nad yw'r dull cyfathrebu yn ymgorffori neges glir ynghylch pam bod yr wybodaeth neu'r digwyddiad diogelwch yn cael ei rannu. Hynny yw, nid oes naratif na 'stori' glir wrth wraidd yr wybodaeth fyddai'n ei gwneud hi'n fwy tebygol o aros yng nghof y rheiny sy'n derbyn y neges. Nid yw'n syndod bod gan yr Awdurdodau systemau ar waith i gofnodi pan fo personél wedi darllen a derbyn gwybodaeth a ledaenir yn ganolog. Fodd bynnag, er mwyn cael dealltwriaeth wirioneddol o'r graddau y mae'r gwersi wedi'u hymwreiddio, dylid cynnal gwiriadau sicrwydd ansawdd yn rheolaidd.

Bydd parhau i ddatblygu diwylliant agored lle bo gwersi'n cael eu dysgu o weithgarwch y Gwasanaeth a rhannu'r gwersi hynny mewn modd amserol yn helpu'r Awdurdodau i leihau lefelau risg i'w staff yn barhaus. Roedd hi'n amlwg drwy gydol pob ymweliad fod staff ar bob lefel yn deall y prosesau i'w defnyddio i rannu gwersi i'w dysgu, boed y gwersi hynny'n deillio o ddigwyddiadau gweithredol neu'n wersi a ddysgwyd o rolau ehangach y mae staff gweithredol bellach yn eu cyflawni, ee, meysydd fel Ymateb ar y Cyd, Ymateb Meddygol Brys (EMR) ehangach neu Ddiogelwch Cymunedol. Roedd hi'n ddiddorol nodi sylwadau gan griwiau oedd yn ymgymryd ag EMR neu Ymateb ar y Cyd nad oedd systemau i roi adborth ynghylch unrhyw bryderon, gwersi i'w dysgu neu welliannau yn cael ateb ar sawl achlysur. Roedd hi'n anodd sefydlu ai newydd-deb cymharol y meysydd gwaith hyn mewn rhai Awdurdodau, a'r ffaith nad oedd y prosesau a'r gweithdrefnau wedi'u hymwreiddio eto, neu fod llinellau cyfathrebu gor-gymhleth wedi methu oedd i gyfrif am hyn. Yr hyn

[7] Rhaglen Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol, Canllawiau Arfer Da ar gyfer Dysgu Gweithredol Cenedlaethol, Chwefror 2016.

a oedd yn glir, fodd bynnag, oedd bod amrywiol faterion wedi'u hadrodd wrth reolwyr llinell neu uwch swyddogion ac na chafwyd unrhyw adborth.

Mae'r ffordd y mae gwersi i'w dysgu yn cael eu lledaenu yn bwysig iawn i sicrhau bod staff yn medru cael mynediad rhwydd i'r wybodaeth bwysicaf yn gysylltiedig â risg. Gwelodd y Tîm Adolygu wersi fel hyn yn cael eu dysgu ar draws nifer o gyfryngau ac roedd hi'n ddiddorol nodi cynnydd yn y defnydd o e-ddysgu, er nad oedd hynny'n syndod ychwaith. Er bod rhai yn gweld hyn fel ffordd effeithiol iawn o raeadru dysgu, dylai Awdurdodau ystyried amrywiaeth eu sefydliadau a chofio bod angen sicrhau mynediad, amser a'r gallu i ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth yn effeithiol. Drwy gydol yr adolygiad, gwnaeth staff sylwadau ynghylch gwerth dulliau traddodiadol o dderbyn gwybodaeth a dysgu, a hyd yn oed fanteision trafodaethau anffurfiol drwy sgyrsiau tîm dyddiol arferol.

Efallai y bydd lle i fod yn ofalus wrth rannu peth gwybodaeth, yn enwedig pan fo'r wybodaeth honno'n rhoi tystiolaeth o berfformiad nad yw o bosib yn adlewyrchu gweithdrefn neu arferion a adwaenir o fewn y sefydliad, ac o bosib wedi arwain at ddamwain neu anaf. Efallai yr ystyrir bod gwybodaeth o'r fath yn rhy sensitif i'w rhyddhau ac efallai y ceir goblygiadau cyfreithiol yn gysylltiedig â gwneud hynny. Drwy ddefnyddio mesurau rheoli addas ac adrodd a oeddent yn llwyddiannus, yn rhannol lwyddiannus, yn aflwyddiannus neu heb eu defnyddio gellir rhannu gwybodaeth yn gyflym ar ôl digwyddiad, heb briodoli cyfrifoldeb[8].

## Dysgu er mwyn gwella Diogelwch y Cyhoedd

Mae'r Awdurdodau wedi canolbwyntio ar ddiogelwch tân yn y cartref ers peth amser; mae'r drefn hon wedi arwain at gynnydd enfawr yn y nifer sydd yn berchen ar larymau mwg ledled cymunedau Cymru. Mae hyn, ynghyd â rhaglenni addysgu ehangach, gostyngiad yn y niferoedd sy'n ysmygu a newidiadau i reoliadau diogelwch dodrefn, wedi lleihau effaith tanau mewn anheddau preswyl yn sylweddol. Mae pob un o'r Awdurdodau yn parhau i esblygu eu strategaethau diogelwch tân yn y cartref cyfredol gan ystyried anghenion ehangach eu cymunedau. Mae gan bob Awdurdod brosesau ar ôl tanau mewn anheddau er mwyn helpu'r preswylwyr i adfer rhywfaint o normalrwydd; mae rhai o'r rhain yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r rheiny sy'n byw mewn eiddo yn yr ardal gyfagos gan amlygu effaith digwyddiad o'r fath.

Mae cyflwyniadau gan y tri Awdurdod wedi dangos yr ymchwil fanwl y maent wedi'i gwneud o fewn eu meysydd Gwasanaeth, gan broffilio marwolaethau ac anafiadau yn sgil tanau sy'n helpu i ddylanwadu ar strategaethau ac ymgyrchoedd atal effeithiol er mwyn lleihau effaith a nifer y digwyddiadau yn y dyfodol.

Ym mhob Awdurdod, mae gwaith yn cael ei ddatblygu ar gyfer y prosiect LIFEBID; mae'r gwaith hwn wedi dechrau cwestiynu pa mor effeithiol yw'r negeseuon a'r ffyrdd traddodiadol o feddwl, ee, yr ymgyrch 'ewch allan, arhoswch allan'. Ymddengys fod

[8] Rhaglen Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol, Canllawiau Arfer Da ar gyfer Dysgu Gweithredol Cenedlaethol, Chwefror 2016.

unigolion, a dynion yn benodol, yn aml yn ceisio diffodd y tân a byddant yn dychwelyd i'r eiddo yr effeithiwyd arno i nôl eitemau personol ac yn fwy aml i achub anifeiliaid anwes, waeth pa mor aml y bydd pobl yn clywed y neges 'ewch allan, arhoswch allan'. Mae gwaith i ganfod ffyrdd gwell o addysgu ac esbonio peryglon gweithred o'r fath a sut i ddelio â sefyllfa lle ceir tân yn parhau drwy'r prosiect LIFEBID. Cefnogir hyn gan ymchwil yn dilyn tanau anheddau domestig gyda staff o'r Awdurdodau yn casglu gwybodaeth ar ôl digwyddiadau. Bydd yr wybodaeth a gofnodir yn canolbwyntio ar sawl maes yn cynnwys gwybodaeth benodol am y digwyddiadau a arweiniodd at y tân ac ymddygiad unigolion cysylltiedig. Gobeithir, yn y pendraw, y bydd y cyfoeth o wybodaeth a gofnodir drwy'r dulliau manwl hyn yn datblygu ac fodd i newid polisi ac ymgyrchoedd diogelwch tân.

Yn ddiweddar, hefyd, bu un Awdurdod yn negodi protocol rhannu data gyda Bwrdd Ysbyty sy'n amlygu patrymau a tueddiadau hanesyddol cleifion â llosgiadau yn ddienw. Y bwriad yw adeiladu ar y bartneriaeth hon fel y gall cyfeiriadau, LIFEBID a rhannu data fod yn rhan o ffurflen cleifion yn yr ysbyty. Yn ogystal, mae Awdurdod arall yng Nghymru yn dysgu gan ddioddefwyr trais domestig a throseddau casineb lle gallai tân fod wedi cael ei ddefnyddio fel arf. Nid oes amheuaeth y bydd casglu data o'r ffynonellau ehangach hyn yn gwella ansawdd yr wybodaeth sydd ar gael i'r grwpiau/prosiectau amrywiol hyn yn y dyfodol.

## Enghraifft:

Bydd Swyddogion Ymchwil o fewn un Awdurdod yn mynd i anheddau lle mae tân wedi dechrau mewn Nwyddau Gwyn waeth beth fo maint y tân. Mae tanau mewn eitemau megis sychwyr yn cael eu harchwilio er mwyn canfod a oedd y nwyddau'n ddiffygiol ynteu a oedd diffygion cynnal a chadw yn ffactor hefyd. Mae'r wybodaeth hon yn helpu i ffurfio'r strwythurau a'r pynciau sy'n cael eu trafod yn ystod gwiriadau diogelwch yn y cartref wedi hynny.

Mewn enghraifft arall, dechreuodd tân difrifol yng nghwpwrdd crasu annedd oherwydd offer trydanol a mesurau cynnal a cadw tŷ diffygiol. Mae'r gwersi o hyn wedi'u cynnwys mewn pecynnau cyngor ar ddiogelwch yn y cartref y gellir bellach eu rhannu yn ystod ymweliadau ymladdwyr tân.

Yn dilyn tanau damweiniol mewn eiddo domestig, mae'n arferol i Awdurdodau gynnig ymweliadau diogelwch y cartref er mwyn ceisio rhoi cysur, edrych ar risg a chasglu gwybodaeth am wneuthuriad yr aelwyd a phobl sydd wedi'u hanafu er mwyn cyd-fynd â LIFEBID a gwella negeseuon ymgyrchoedd. Ym mhob Awdurdod, disgrifiodd yr arweinwyr diogelwch cymunedol sut maent yn gwneud pob ymdrech i ddatblygu negeseuon ymgyrchoedd sy'n berthnasol ac yn ddeinamig ac sy'n adlewyrchu anghenion y gymuned ar raddfa leol.

Bydd trefniadau cynhwysfawr y tri Awdurdod i ymgysylltu â'r cynllun LIFEBID yn sicrhau y ceir y buddion mwyaf o'r ymchwil gan wella'r gwersi a ddysgir o danau domestig yn sgil hynny. Wedi cyfnod addas, cynigir cynnal dadansoddiad o'r data a gasglwyd a bydd proffil yn cael ei gwblhau i roi gwell dealltwriaeth a mewnwelediad o'r rhesymau pam bod anafiadau yn digwydd yn sgil tanau mewn anheddau.

Yn ystod yr ymweliadau â gorsafoedd tân, nid oedd y staff gweithredol, yn enwedig y rheiny oedd yn gweithio o dan y system RDS, bob amser yn teimlo bod ganddynt yr wybodaeth lawn am y strategaethau diogelwch tân cymunedol ehangach ym mhob Awdurdod. Cafwyd nifer o sylwadau megis "Dydw i ddim yn sicr beth yw manteision ail-ymweld â chartrefi lle'r ydym wedi cynnal Gwiriad Diogelwch y Cartref yn barod, yn enwedig os oedd ganddynt larymau mwg yn barod". Ymddengys hefyd mewn rhai Awdurdodau fod gorsafoedd yn cael targedau ar gyfer nifer yr ymweliadau diogelwch a gwblheir. Trafodwyd nifer o ddulliau gan griwiau gweithredol ynghylch sut wnaethant fodloni'r targedau hyn a'r ffaith eu bod yn teimlo eu bod yn methu'r anheddau 'wrth-risg' mwyaf priodol.

Mae gwaith ar lefel strategol er mwyn cynorthwyo i ddatblygu gwersi i'w dysgu i wella diogelwch y cyhoedd ar sail Cymru gyfan yn bwrw ymlaen drwy'r grwpiau Lleihau Risg Cymunedol o fewn y NIC. Mae'r rhan fwyaf o'r staff gweithredol a gyfwelwyd yn gefnogol iawn i'r gwahanol fentrau diogelwch cymunedol a ddatblygwyd i leihau tanau domestig, gan weld eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar eu cymunedau lleol. Fodd bynnag, mae sawl un yn dyfynnu'r cydbwysedd anodd rhwng amser i dderbyn hyfforddiant gweithredol realistig o ansawdd a'r angen i gyflawni'r amrediad eang o weithgareddau diogelwch cymunedol. Mae tystiolaeth ynghylch hyn gan yr Awdurdodau a chan staff sy'n gweithio mewn gorsafoedd yn amrywio, yn enwedig Gorsafoedd RDS, lle cyflawnir mentrau diogelwch tân cymunedol er bod rhaglenni hyfforddiant critigol o ran risg wedi ôl-gronni. Mynegwyd pryderon tebyg gan rai gweithwyr Ar Ddyletswydd, ond mynegwyd pryder hefyd ynghylch cost-effeithiolrwydd ac ansawdd amser wrth gyflawni rhai gweithgareddau cymunedol penodol fel criw cyfan.

## Casglu Gwybodaeth / Ôl-friffio

Ar draws y tri Awdurdod, mae polisïau clir ar waith ar gyfer ôl-friffio gweithredol sydd yn rhan o'u prosesau adolygu eu hunain. Ceir dealltwriaeth eang o'r ffaith y gall digwyddiadau ôl-friffio, wedi'u cefnogi gan brosesau monitro, archwilio ac adolygu ychwanegol, nodi a chadarnhau arfer da ynghyd ag amlygu meysydd i'w gwella. Os bydd y prosesau hyn cael eu hymwreiddio yn systemau gwybodaeth weithredol ehangach yr Awdurdodau a'r gwersi'n cael eu rhannu'n eang, bydd hynny'n hyrwyddo datblygiad parhaus ar lefelau unigol ac ar lefel y sefydliad. Mae dulliau pob Awdurdod o gofnodi gwybodaeth ôl-friffio yn amrywio rhywfaint, ond cadarnhaodd staff gweithredol fod ôl-friffio poeth yn arfer sydd wedi'i ymwreiddio'n dda. Roedd y dull o gofnodi a rhannu'r cyfoeth o wybodaeth o sesiynau ôl-friffio poeth hefyd yn amrywio ar draws yr Awdurdodau; ar lefel leol, roedd y trefniadau ar gyfer rhannu'r wybodaeth hon rhwng criwiau a grwpiau yn ymddangos yn ad hoc. Dywedai rhai timau eu bod yn anfon gwybodaeth drwy e-bost at gydweithwyr, a dywedai eraill y byddai trafodaethau

trosglwyddo yn ymdrin â digwyddiadau o ddiddordeb penodol. Er bod prosesau casglu gwybodaeth ar waith o fewn Awdurdodau, sy'n cefnogi adnabod tueddiadau ar draws Gwasanaethau, mae'n bosib bod ffynonellau cyfoethog o wybodaeth yn cael eu hanghofio gan nad yw'r wybodaeth yn hygyrch neu'n hawdd ei rhannu lefel gorsafoedd. Dylai'r broses ôl-friffio y mae pob Awdurdod yn ei mabwysiadu ganiatáu i unigolion a thimau gynnal dadansoddiad a gwerthusiad systematig o'r tactegau gweithredol a ddefnyddir yn ystod gweithgareddau penodol yn y gweithle. Cyflëwyd yn gwbl glir ar draws y tri Awdurdod bod ôl-friffio poeth bellach yn arfer cyffredin ar gyfer pob digwyddiad, hyfforddiant ac ymarfer, p'un a yw ôl-friffio yn digwydd ar lefel uwch ai peidio. Bydd peth o'r gwersi hyn yn berthnasol i dimau ac unigolion penodol ond gall peth ohono hefyd gynnwys goblygiadau sefydliadol. Canfuwyd yn yr adolygiad fod criwiau gweithredol yn cydnabod pwysigrwydd cofnodi'r wybodaeth hon yn system berthnasol yr Awdurdod, os oedd y system honno ar gael. Fodd bynnag, cyfeiriodd y staff at y ffaith nad yn hawdd cael adborth, ac nad oedd adborth bob amser ar gael, er bod rhai o'r systemau adrodd ar ôl digwyddiad yn cael eu defnyddio.

## Monitro Safle'r Digwyddiad

Yn unol â meysydd eraill sydd yn destun craffu, cyflawnir gwaith sicrwydd ac/neu fonitro gweithredol yn wahanol ym mhob Awdurdod; mae hyn yn bennaf oherwydd strwythurau Gwasanaethau unigol. Ym mhob Awdurdod, ceir polisïau ar waith sy'n nodi sut y bydd monitro yn digwydd a sut y bydd unrhyw wersi i'w dysgu yn cael eu cofnodi. Mae dau o'r Awdurdodau yn defnyddio rheolwyr dyletswydd fflecsi sy'n mynd i ddigwyddiadau yn benodol er mwyn cyflawni dyletswyddau monitro/sicrwydd gweithredol. Mae gan yr Awdurdod arall dîm pwrpasol sy'n ymateb i ddigwyddiadau/hyfforddiant neu ymarferion sydd wedi'u nodi fel rhai o ddiddordeb neu rai sy'n bodloni meini prawf penodol. Er bod hyn yn golygu defnyddio llawer o adnoddau, y mae wedi galluogi'r Awdurdod i ganolbwyntio ar themâu allweddol ac yn cysylltu ei waith monitro'n benodol â'r wybodaeth a geir o wersi lleol, cenedlaethol ac ar draws y DU. Roedd hi'n amlwg yn ystod yr adolygiad bod gan yr Awdurdod hwn broses reolaethol gadarn, a ganolbwyntiai ar ddeilliannau dysgu a dadansoddi anghenion penodol. Roedd y staff gweithredol o fewn yr Awdurdod hwn yn agored iawn i'r ffurf yma ar fonitro a theimlent fod y ffordd yr aeth y rheolwyr ati i gyflawni'r rôl hon yn gynhwysol iawn a'i bod wedi cael effaith gadarnhaol iawn. Defnyddir TG i gofnodi'r math yma o waith monitro, ond ni ddefnyddir systemau TG pwrpasol. Mae cronfa ddata a ddatblygwyd yn fewnol er mwyn Monitro Sicrwydd yn un o'r gwasanaethau eraill wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth gynyddu gallu'r gwasanaeth i goladu gwersi i'w dysgu ar draws y sefydliad. Symudodd yr Awdurdod i ail fersiwn o'r gronfa ddata hon yn ddiweddar sydd yn dal i gael ei ddatblygu, ond y mae'r gronfa honno'n llawn addewid. Er mwyn cefnogi'r newidiadau hyn, mae'r Awdurdod hwn wedi dechrau ailstrwythuro prosesau rheolaethol er mwyn gallu defnyddio'r data cyfoethog a geir drwy'r dull hwn yn llawn. Bydd strwythurau a phrosesau rheolaethol cryf wedi'u seilio ar asesiadau/sicrwydd gweithredol o fewn Awdurdodau yn cefnogi effeithiolrwydd y dull hwn. Mae'n amlwg bod pob Awdurdod wedi symud i fabwysiadu trefniadau monitro a dadansoddi tueddiadau o ddata

ystadegol ymchwiliadau i ddigwyddiadau, damweiniau, damweiniau fu bron â digwydd a methiannau mewn offer. Gall systemau TG clyfar i gofnodi a chefnogi hyn roi cyfle i ddadansoddi'n effeithiol a yw polisïau a gweithdrefnau gweithredol presennol a diwygiedig yn effeithiol ac a gadwir atynt.

Cydnabyddir bod strwythurau a phrosesau llywodraethu sy'n cefnogi monitro/sicrwydd gweithredol yn wahanol ym mhob Awdurdod. Fodd bynnag, bydd datblygiadau parhaus yn y maes hwn yn sicrhau bod staff gweithredol yn derbyn y wybodaeth lawn a, thrwy rannu'r deilliannau a'r canfyddiadau dysgu, gallant ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau er mwyn gwella deilliannau gweithredol, yn benodol diogelwch ymladdwyr tân.

Nodir bod yr Awdurdod sydd wedi datblygu'r gronfa ddata sicrwydd ynghlwm wrth dreialon y Prosiect Dysgu Gweithredol ar yr un pryd, a gobeithir y bydd ei gronfa ddata fewnol yn cefnogi ac yn integreiddio gydag amcanion ehangach y prosiect. Mae amcanion dysgu gweithredol wedi'u hadlewyrchu ar draws bob un o'r tri Awdurdod a thrwy grŵp cyflawni perthnasol y NIC[9]. Argymhellir bod datblygiadau pellach gyda'r gronfa ddata hon yn cael eu rhannu i'w defnyddio ar draws y tri Gwasanaeth.

Cyflawnir archwiliadau o 'Gorsaf Dân' ar draws y tri Awdurdod ac er bod y dulliau a ddefnyddir ychydig yn wahanol, mae deilliannau tebyg yn cael eu cyflawni. Defnyddir prosesau arolygu ac archwilio gorsafoedd i sicrhau cymhwysedd gweithredol a gwybodaeth dechnegol, a sicrhau y cedwir at weithdrefnau diogelwch a pholisïau a gweithdrefnau gweithredol.

Ym mhob Awdurdod, bydd arolygiadau naill ai'n cael eu cynnal yn unol â rhaglen a gyhoeddir, ar sail ad hoc neu ar sail ddi-rybudd. O fewn un Awdurdod, mae tîm pwrpasol wedi'i greu i gyflawni swyddogaethau archwilio ar draws yr holl feysydd/timau sefydliadol. Yn eu hadolygiadau cychwynnol, canolbwyntiodd y tîm ar weithgareddau gweithredol, ond bellach maent yn ehangu hyn i gynnwys meysydd busnes ehangach. Mae'r tîm wedi ymwreiddio staff Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch i'w strwythur oherwydd cydnabyddir bod y swyddogaethau a'r deilliannau yn croesi meysydd cyfrifoldeb.

Yn ystod yr adolygiad, trafodwyd rôl y tîm hwn yn eang oherwydd ymddengys ei fod wedi cael effaith anferthol ar y sefydliad yn y pymtheg mis cyntaf ers ei ffurfio. Bu'r adborth cyffredinol yn eithaf cadarnhaol, ond teimla staff fod ffocws cychwynnol yr archwiliadau gweithredol yn rhy gul, yn canolbwyntio ar fân elfennau'n gysylltiedig â pherfformiad yn hytrach nag ar ymagwedd tîm/criw ehangach. Fodd bynnag, mae staff bellach yn dechrau cydnabod effaith gadarnhaol y dull hwn a bod elfennau iechyd a diogelwch ac elfennau critigol o ran risg yn cael lle blaenllaw mewn deilliannau gwell. Mae gan y tîm archwilio faes cyfrifoldeb eang a all orgyffwrdd â meysydd gweithredol timau eraill, yn enwedig Hyfforddi a Datblygu. Yn y dystiolaeth o'r adolygiad gwelwyd bod angen meithrin cysylltiadau cyfathrebu cryfach rhwng y ddau dîm hynny. Y prif resymau am hyn oedd er mwyn lleihau dyblygu posibl, a byddai'r wybodaeth hyfforddi sylweddol a fyddai'n tarddu o'r archwiliadau yn rhoi sail i ddatblygu dadansoddiad effeithiol o anghenion hyfforddi 'ar sail tystiolaeth' hefyd.

[9] Grŵp Diogelwch Tân a Pheirianneg, Prifysgol Greenwich; Gwasanaeth Tân ac Achub Caint.

## Iechyd a Diogelwch

Mae polisïau Iechyd a Diogelwch o fewn pob Awdurdod wedi'u hen sefydlu gyda thimau cymwys yn gyfrifol am oruchwylio a rheoli'r gweithdrefnau o ddydd i ddydd. Roedd hi'n amlwg yn ystod yr ymweliadau bod trefniadau pwyllgor iechyd, diogelwch a lles da yn bodoli a'u bod yn cynnwys cynrychiolaeth o bob grŵp o staff, gan gefnogi cyfathrebu materion iechyd a diogelwch yn y gweithle. Mae prosesau ar waith i rannu gwybodaeth ystadegol am iechyd a diogelwch gyda'r holl staff, yn cynnwys damweiniau a damweiniau fu bron â digwydd, ym mhob Awdurdod. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chylchredeg drwy amrywiol ddulliau a welwyd yn y gorsafoedd yn ystod yr adolygiad. Mae gan bob Awdurdod amrediad o ddulliau i alluogi staff i adrodd am ddigwyddiadau diogelwch ac yn ystod yr ymweliadau, yr argraff gyffredinol oedd bod staff yn gyfarwydd â'r prosesau ar gyfer hynny. Roedd mwyafrif y staff hefyd yn cydnabod pwysigrwydd adrodd digwyddiadau fu bron â digwydd a'r cyswllt posibl â dysgu sefydliadol drwy'r dulliau hyn. Trafododd rheolwyr Iechyd a Diogelwch sut roedd gweithdrefnau adrodd wedi cael eu haddasu a'u gwella i sicrhau nad oedd unrhyw rwystrau fyddai'n atal mynediad staff at y prosesau. Rhoddwyd enghreifftiau gan staff lle'r oeddent wedi adrodd am ddigwyddiadau oedd y tu hwnt i'r weithdrefn arferol ar gyfer damweiniau neu ddamweiniau fu bron â digwydd, ond a oedd yn amlygu arferion gwaith neu weithdrefn a allai wella. Nodwyd bod staff yn teimlo y gallai adborth cylch cyfan wella o fewn rhai Awdurdodau gan eu bod yn aml heb wybod pa newidiadau a gyflwynwyd, os o gwbl, yn dilyn eu sylwadau.

## Enghraifft:

Cyflwynwyd dull syml o rannu gwybodaeth weithredol ar unwaith drwy arbedwyr sgriniau ledled gorsafoedd tân. Cafodd hyn effaith bwerus ar orsafoedd RDS anghysbell lle gallai staff a oedd yn galw i mewn i'r orsaf weld rhybuddion diogelwch allweddol ar unwaith heb orfod chwilio amdanynt.

Tynnwyd sylw'r tîm adolygu at enghraifft dda o ddysgu yn sgil ymchwiliad i ddamwain yr adroddwyd amdani'n ddiweddar. Digwyddodd y ddamwain yn ystod digwyddiad hyfforddi lle'r oedd Ymladdwr Tân wedi dioddef straen gwres wrth dderbyn hyfforddiant offer anadlu yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Dwyrain Sussex ym mis Mehefin 2015. Aeth tîm Iechyd a Diogelwch un Awdurdod ati i adolygu'r digwyddiad hwn, a thrafod sut roeddent wedi dechrau edrych ar y gwersi hyn yng nghyswllt eu hadran hyfforddi eu hunain o fewn eu sefydliad eu hunain. Arweiniodd hyn at adolygiad llawn o bolisi hyfforddi BA, darpariaethau diogelwch a monitro tymereddau o fewn cyfleusterau Ymddygiad Tân cyfredol, gan gynnwys cynnig i ddatblygu cyfleusterau newydd. Cafodd yr adroddiad a rannwyd gan Ddwyrain Sussex effaith gadarnhaol ar eu harferion cyfredol, gan sicrhau blaenoriaeth i les staff sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant tân poeth.

Rhannwyd enghraifft arall yn ystod yr ymweliadau adolygu lle'r oedd staff wedi ymweld â chydweithwyr yn yr Alban er mwyn cael mwy o wybodaeth am ddigwyddiad Balmoral Bar. Cafodd y tîm oedd yn ymweld gyfle i gael gwybodaeth wreiddiol gan gydweithwyr ynghylch yr amgylchiadau a'r hyn a ddysgwyd o'r digwyddiad trasig hwn, gan gynnwys ymweld â'r eiddo. Roedd hi'n amlwg bod awydd gwirioneddol i ddysgu yn sgil y digwyddiad, ond roedd hi'n anodd gweld tystiolaeth i ddangos bod y cyfle wedi'i ddatblygu o fewn y sefydliad, a bod y deilliannau dysgu wedi'u rhannu ar draws y criwiau gweithredol.

Mae cysylltiadau ar draws timau yng nghyswllt Iechyd a Diogelwch, sicrwydd ac archwilio gweithredol yn bwysig iawn er mwyn ffurfio dadansoddiad cyson. Bydd ymagwedd strwythuredig sy'n mesur achosion methiannau posibl yn wrthrychol, yn erbyn arferion da cytunedig sy'n gysylltiedig â meysydd penodol, yn golygu bod modd cymharu'r hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd yn erbyn y meincnod a osodwyd. Mae adrodd ar berfformiad gweithredol gwirioneddol o ran y camau tactegol sy'n gysylltiedig â gweithgaredd yn caniatáu cymhariaeth uniongyrchol o'r hyn y gellid bod wedi'i wneud a'r hyn a wnaed mewn gwirionedd i reoli perygl.

Mewn cyfarfodydd â staff rheng flaen ar y defnydd a'r ddealltwriaeth o asesiadau risg dadansoddol (ARD) nodwyd bod cofnodi materion iechyd a diogelwch gweithredol yn destun pryder. Ar sawl achlysur, esboniwyd mai aelodau iau o'r criw nad oedd ganddynt gymhwyster ffurfiol i asesu'r mathau o beryglon fyddai'n ffurfio'r dadansoddiad risg wedi'i gofnodi ar ARD fyddai'n cynnal yr asesiad. Nodwyd hefyd nad oedd un Awdurdod wedi cyflwyno asesiadau risg dadansoddol ffurfiol i'r amgylchedd gweithredol eto. Gall ffurflenni asesu risg dadansoddol a throsglwyddo digwyddiadau ddarparu data cyfoethog i'w bwydo i wersi sefydliadol ac argymhellir prosesau i gofnodi hyn o fewn y broses ddysgu gyffredinol.

Mae cofnodi penderfyniadau ynghylch a fydd newidiadau sylweddol yn cael eu cyflwyno neu beidio yn rhan allweddol o'r trywydd archwilio iechyd a diogelwch. Yn ystod trafodaethau â rheolwyr o un Awdurdod ynghylch digwyddiad arwyddocaol, amlygwyd na chafodd rai o'r argymhellion eu bwrw ymlaen/eu mabwysiadu. O'u herio ynghylch y camau gweithredu hyn, nid fu modd darparu tystiolaeth reolaethol glir i gefnogi'r penderfyniad. Er bod yr Awdurdod wedi cynnal dadansoddiad cychwynnol o'r bylchau, ymddengys na wnaed unrhyw gofnod o'r rhesymeg wrth wraidd y penderfyniad. Pe ceid digwyddiad tebyg yn y dyfodol, yr oedd potensial am her bellach.

## Dysgu a Datblygu

Mae Strategaeth Datblygu Sefydliadol wedi cael ei datblygu gan y tri gwasanaeth gyda'r nod o sicrhau bod gan yr Awdurdodau yng Nghymru brosesau effeithiol ar waith i gynnal gweithlu cymwys. Bwriad y strategaeth yw darparu fframwaith cydlynus ar gyfer eu gweithgarwch gwella corfforaethol. Law yn llaw â hyn, mae gan bob Awdurdod bolisïau penodol i gefnogi eu strategaethau dysgu a datblygu.

Cydnabyddir bod gostyngiad mewn digwyddiadau gweithredol yn cael effaith amlwg ar brofiad a sgiliau staff y gwasanaeth tân gan fod eu profiad o'r senarios hyn wedi lleihau'n fawr

dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Wrth drafod â'r staff drwy gydol yr adolygiad, gwelwyd y pwysau y maent yn ei brofi wrth gydbwyso hyfforddiant digonol i wneud iawn am y gostyngiad mewn profiad gweithredol. Mae pob Awdurdod wedi llunio rhaglenni hyfforddiant cynhwysfawr a rhaglenni hyfforddiant yn seiliedig ar gymhwysedd i staff eu dilyn ac arddangos eu bod yn cyflawni'r safonau perthnasol drwy efelychu. Bydd staff yn cofnodi eu cynnydd yn erbyn y rhaglenni hyfforddiant perthnasol hyn a bydd unigolion a'u rheolwyr yn medru defnyddio'r system cofnodi hyfforddiant i olrhain, archwilio a monitro'r modd y mae unigolion, timau a grwpiau yn cynnal cymwyseddau craidd. Mewn Gorsafoedd lle ceir nifer o beiriannau arbenigol, mynegodd y staff drwy gydol yr adolygiad fod cynnal safon uchel mewn sgiliau craidd ar draws yr ystod eang o arbenigeddau gweithredol a oedd ganddynt bellach yn gryn her. Yn ogystal, cysylltodd staff hyn â chynnydd ac ymrwymiad ehangach eu gwaith ymgysylltu cymunedol. Roedd hi'n amlwg bod y ffaith nad oedd grwpiau o staff yn gallu derbyn hyfforddiant gyda'i gilydd bob amser yn effeithio ar y gallu i gynnal hyfforddiant grŵp/tîm traddodiadol, a gydnabyddir yn fuddiol er mwyn gweithio mewn tîm. Amlygwyd hyn i'r tîm adolygu mewn achosion lle'r oedd shifftiau penodol a modelau staffio gyda chriwiau hyblyg yn weithredol. Yr oedd y staff yno yn ystyriol o ddilyniant hyfforddi o fewn eu grwpiau o staff, gan fod gweithwyr yn gweithio sifftiau ar gylchdro. Dylai Awdurdodau ystyried hyn gan fod y sylwadau hyn gan griwiau hefyd yn gysylltiedig â'r amrediad eang o beiriannau/offer arbenigol sydd wedi'u lleoli mewn gorsafoedd sydd â chriwiau amgen.

## Enghraifft:

Nododd staff fod hyfforddiant ymarfer mewn criw ymhlith y sesiynau hyfforddi gorau y maent yn cymryd rhan ynddynt. Mewn un Awdurdod, mae trefniadau parhaus gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi sicrhau mynediad i safle hyfforddi realistig. Mae'r lleoliad yn caniatáu i nifer o wahanol senarios gael eu cynnal gyda chriwiau yn ymateb yn yr hyn a ddisgrifir ganddynt fel amgylchedd dysgu ardderchog.

Nodwyd sylwadau ynghylch dilyniant hyfforddi a gallu rheolwyr lleol i addasu digwyddiadau hyfforddi i ystyried y cylchdro hwn. Soniodd staff gweithredol ei bod hi'n anodd cael mynediad rheolaidd at leoliadau hyfforddi ac/neu safleoedd a oedd yn addas i gynnal hyfforddiant realistig, a bod hynny eto'n amharu ar eu gallu i gynnal eu sgiliau. Derbyniwyd adborth cadarnhaol gan grwpiau staff gweithredol lle'r oedd Awdurdodau wedi datblygu rhaglenni ymarfer o ansawdd a lle'r oedd rheolwyr cefnogol yn gallu cynnal asesiadau risg ar ran staff gorsafoedd ar gyfer lleoliadau a fyddai'n gallu ymddangos yn realistig. Roedd staff yn gadarnhaol iawn am y lleoliadau oedd wedi'u hadnabod a'u datblygu i'w defnyddio'n rheolaidd ar gyfer hyfforddiant ar gyfer y criw. Mewn enghreifftiau eraill o arfer da, cafwyd adborth cadarnhaol iawn ar lefel ymladdwyr tân a rheolwyr i ymarferion lle'r oedd staff yn derbyn adborth ar unwaith ar eu perfformiad drwy adolygiad wyneb yn wyneb ar y pryd.

Mae'r tri Awdurdod yn ddibynnol iawn ar systemau cofnodi electronig er mwyn gallu archwilio sut mae staff yn cynnal eu sgiliau yn effeithiol. Defnyddir yr un system cofnodi hyfforddiant yn y tri Awdurdod gyda mân addasiadau i bob un. Wedi i reolwyr godi cyfyngiadau'r system fel problem, roedd dull Cymru gyfan bellach yn cael ei archwilio er mwyn diweddaru'r broses cofnodi hyfforddiant. Yr oedd rhai pryderon y gellid colli datblygiadau gan Wasanaethau unigol drwy'r dull hwn; felly gellid argymell y dylai'r gweithgor NIC perthnasol fwrw ymlaen â'r pryderon hyn, gan edrych ar y dulliau caffael gorau.

Mae pob Awdurdod wedi bod yn ymwneud â'r treialon ar Ymateb Meddygol Brys (EMR) ac Ymateb ar y Cyd; yn gyffredinol, roedd mwyafrif y staff y bu'r Tîm Adolygu yn siarad â hwy yn cefnogi'r cynlluniau hyn. Fodd bynnag, roedd nifer o'r sylwadau a dderbyniwyd gan staff yn canolbwyntio ar brinder yr hyfforddiant cychwynnol a pharhaus o adnoddau hyfforddi 'canolog' i gefnogi'r cynlluniau hyn. Rhoddwyd nifer o enghreifftiau lle'r oedd hyfforddiant tân ac achub traddodiadol wedi cael derbyniad da yn erbyn meysydd newydd, megis EMR, lle na fu'r broses o ddatblygu sgiliau a gwersi newydd yn arbennig o effeithiol. Mae angen cynnal ymchwil briodol i'r meysydd gwaith newydd hyn, a chynllunio ar eu cyfer a'u cefnogi'n dda, gan gynllunio'r hyfforddiant er mwyn iddo weddu i gynulleidfa sydd wedi datblygu cymwyseddau ar gyfer amgylchedd gweithredol tra gwahanol. Ymddengys mai'r pryder mwyaf oedd pryder y criwiau a oedd yn ceisio dysgu gwersi yn sgil digwyddiadau blaenorol, ond a adroddai fod yr adborth naill ai'n araf iawn neu heb fodoli o gwbl.

Fel y soniwyd eisoes, mae'n bwysig sicrhau y cynhelir cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau hyfforddi craidd a mentrau newydd y mae criwiau gweithredol bellach yn eu cyflawni yn sgil gostyngiad mewn gweithgarwch gweithredol. Gan fod gweithwyr yn cael llai o brofiad o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â thân, mae hi hefyd yn bwysig iawn gwneud yn iawn am hynny drwy gynyddu hyfforddiant realistig addas.

Mae'r amrediad o gyrsiau gloywi seiliedig ar gymhwysedd a gynigir ar lefel ymladdwyr tân yn wahanol o fewn pob Awdurdod. Cyrsiau ailgymhwyso/gloywi ymddygiad tân yw'r craidd ym mhob Awdurdod, ac mae hynny'n briodol, gyda'r rhan fwyaf yn sicrhau bod y rhan fwyaf o staff yn profi tanau carbonaidd yn ystod y digwyddiadau hyn. Nodwyd mai dim ond un Awdurdod a ddatganodd ei fod wedi mabwysiadu Model Cymhwysedd Gweithredol CFOA yn ffurfiol. Bydd capasiti ar gyfer timau hyfforddi yn gwahaniaethu ond mae sicrwydd ansawdd a dysgu strwythuredig yng nghyswllt sgiliau craidd yn bwysig. Mae'r model cymhwysedd gweithredol yn canolbwyntio ar y sgiliau gweithredol craidd y mae angen i ymladdwyr tân eu cynnal. Mae strwythuro cyrsiau ailgymhwyso/gloywi ar hyd y llinellau hyn yn arddangos arfer da. Awgrymai Adolygiad Thomas (adolygiad o Awdurdodau Lloegr)[10] y dylid cael lefel sylfaenol o hyfforddiant i bawb, yn hytrach na bod pawb yn ceisio cyflawni'r holl gymwyseddau. Lle bo hynny'n briodol, gallai hyn fod yn gyfle i leihau'r pwysau mewn rhai meysydd

10 Adrian Thomas: Independent review of conditions of service for fire and rescue staff in England, Chwefror 2015

hyfforddi a chynnal sgiliau. Aeth yr Adolygiad ymlaen i awgrymu ei bod hi'n bryd ystyried cynnwys statws 'diogel i deithio' sylfaenol gan greu cydbwysedd rhwng yr amodau gwasanaeth amrywiol a geir ar hyn o bryd, ac agor y drws i ffyrdd mwy hyblyg o weithio. Mae'n mynd yn ei flaen i awgrymu y dylid alinio hyfforddiant a chymhwysedd technegol yn agos â Chynlluniau Rheoli Risg Integredig yr Awdurdodau.

Mae staff goruchwyliol yn rheolwyr allweddol wrth gyflwyno diweddariadau, negeseuon craidd a mentrau dysgu ar draws sefydliadau. Daeth yn amlwg yn yr adolygiad mai prin oedd y gweithdai/seminarau hyfforddiant a oedd yn cael eu cynnal ar gyfer Rheolwyr Goruchwyliol wedi'u lleoli yn yr orsaf, os o gwbl. Yn ôl nifer o sylwadau, awgrymwyd bod y gweithdai/seminarau hyn, pan fyddent wedi cael eu cynnal yn y gorffennol, wedi cael derbyniad da iawn a bod y staff wedi elwa ar ddysgu mewn digwyddiadau wedi'u strwythuro'n dda fel y rhain. Byddai buddsoddi yn y math hwn o fforwm yn fuddiol i gefnogi strategaethau dysgu Gwasanaethau. Yn ystod yr adolygiad, ni chafwyd tystiolaeth gref yn yr un Awdurdod fod rhaglenni sgiliau'n cael eu cynnal ar gyfer staff goruchwyliol sy'n gweithio mewn rolau yn y pencadlys. Cafwyd sylwadau gan staff ynghylch y dulliau a ddefnyddir i gynnal eu sgiliau ond nodwyd hefyd y byddent yn croesawu dulliau mwy strwythuredig i'w cefnogi. Roedd hi'n gadarnhaol gweld rhaglenni datblygu a symud ymlaen o ansawdd i staff oedd yn dymuno symud i rolau rheolaethol goruchwyliol oedd wedi'u strwythuro'n dda ac yn cefnogi datblygiad ar draws y mapiau rôl hyn. Ni fydd buddsoddiad parhaus ac ychwanegol yn y rheolwyr allweddol hyn ond o fudd i ddysgu sefydliadol.

Drwy gydol yr adolygiad, cafwyd cydnabyddiaeth gan staff ar bob lefel o bwysigrwydd dysgu'n fyfyriol o'r ffynonellau cyfoethog o wybodaeth sydd ar gael. Roedd hi'n galonogol gweld y dulliau cadarnhaol arloesol lleol yr oedd staff a rheolwyr wedi'u datblygu. Ar adegau, roedd y dulliau hyn yn lleol iawn a byddai'n fuddiol eu rhannu a'u cefnogi ar lefelau uwch ar draws y sefydliad ac o bosib yn ehangach na hynny. Byddai'r tîm adolygu yn annog yr holl staff i ddarllen a rhannu Adroddiad yr Adolygiad Thematig mor eang â phosibl er mwyn cefnogi trafodaeth bellach am wersi sefydliadol ar bob lefel.

## Cydnabyddiaeth

Rydym yn ddiolchgar i'r Prif Swyddogion Tân a'u timau Arweinyddiaeth Uwch o bob un o'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru am eu cefnogaeth drwy gydol yr adolygiad. Yn arbennig, hoffem ddiolch i Kevin Roberts, Iwan Cray ac Alison Kibblewhite am eu cymorth wrth ddarparu a choladu dogfennau a'u cymorth wrth amserlennu'r ymweliadau. Yn olaf, diolchwn i'r holl staff sydd wedi bod ynghlwm wrth yr adolygiad thematig am fod mor agored, ac am eu parodrwydd i rannu eu profiadau a'u barn drwy gydol ein hymweliadau.

# Argymhellion

1. Cyn gynted ag y bo'r dadansoddiad cychwynnol o'r bylchau wedi'i gynnal, ar ôl derbyn gwersi i'w dysgu o ffynhonnell allanol, dylai Awdurdodau Tân ac Achub sicrhau bod y broses yn cael ei chofnodi'n gywir. Mae cofnodi'r broses o wneud penderfyniad ynghylch mabwysiadu, neu beidio â mabwysiadu, argymhellion cenedlaethol yn hanfodol.

2. Dylai Awdurdodau sicrhau bod gwersi ynghylch risg yn cael eu rhaeadru drwy'r sefydliad yn amserol, gan ganolbwyntio ar y staff hynny fyddai'n elwa fwyaf o'r dysgu o safbwynt lleihau risg.

3. Dylai Awdurdodau sicrhau bod y cyfryngau a ddefnyddir i gyfathrebu ynghylch gwersi i'w dysgu ymhlith grwpiau amrywiol o staff yn briodol i'w hanghenion, yn nodi'n glir y rhesymau dros ddod â nhw i'w sylw ac yn cael eu cyfleu mewn fformat ac mewn dull fydd yn golygu y bydd y gynulleidfa yn eu cofio. Dylid ystyried cynnwys dulliau cylch cyfan hefyd er mwyn hysbysu'r rheiny sy'n codi materion pan fo newidiadau sylweddol i'w gwneud.

4. Dylai Awdurdodau edrych ar gyflwyno systemau sicrwydd ansawdd sy'n profi'n rheolaidd pa mor dda y mae gwersi ynghylch risg yn cael eu derbyn a'u cadw.

5. Dylai Awdurdodau sicrhau bod y cyfoeth o wybodaeth a ddaw drwy'r prosesau Ôl-friffio Poeth yn cael ei chofnodi a'i rhannu ble bo hynny'n briodol.

6. Dylai Awdurdodau adolygu eu prosesau Asesiadau Risg Dadansoddol i sicrhau eu bod yn addas i'r diben a'u bod yn bwydo i'r prosesau ehangach o gofnodi dysgu sefydliadol.

7. Dylai Awdurdodau sicrhau cymaint ag sy'n bosibl o gyfleoedd i ddysgu mewn amgylcheddau critigol o ran risg drwy hyfforddiant realistig, yn enwedig o gofio'r gostyngiad mewn digwyddiadau 'tân' dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae hi hefyd yn bwysig bod yr hyfforddiant hwn yn cael ei gynnal gan bersonél sy'n gweithio gyda'i gilydd yn eu criwiau arferol.

8. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at nifer o feysydd lle ceir arfer da lle mae'r systemau sy'n cael eu datblygu yn llawn addewid i'r dyfodol. Argymhellir bod y systemau a'r prosesau hyn, yn enwedig y polisïau hynny ar fonitro a sicrwydd gweithredol, yn cael eu rhannu drwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol er mwyn mabwysiadu dulliau cyffredin ac osgoi ail-wneud gwaith.

# Manylion ymweliadau a wnaed

## Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru Chwefror 2017

- Gorsaf Dân Llanfair ym Muallt (RDS), Systemau monitro digwyddiadau
- Canolfan Hyfforddi Earlswood, ACFO a rheolwyr Dysgu a Datblygu
- Gorsaf Dân Llanelli (W/T), Personél ar Ddyletswydd
- Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin, CFO, Swyddogion Diogelwch Cymunedol, Cyrff Cynrychioladol, Risg Gorfforaethol ac Iechyd a Diogelwch
- Gorsaf Dân Llandrindod (RDS), Rheolwyr Ymateb, Cyswllt yr Orsaf a phersonél yr orsaf
- Gorsaf Dân Caerfyrddin (W/T), personél yr orsaf
- Gorsaf Dân Gorllewin Abertawe (W/T), personél yr orsaf
- Gorsaf Dân Dinbych y Pysgod (RDS), personél yr orsaf

## Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru Chwefror 2017

- Canolfan Hyfforddi Porth Caerdydd, Rheolwyr Hyfforddi a Datblygu, Tîm Datblygu ac Adolygu Gweithredol, Cyrff Cynrychioladol
- Pencadlys y Gwasanaeth, Llantrisant, ACFO, Rheolwyr Ymateb Gweithredol, Diogelwch Cymunedol/Tân yn y Cartref, Rheolwyr Iechyd a Diogelwch, Tîm Rheoli ar Ddyletswydd Rhan Amser
- Gorsaf Dân Abercynon (RDS), personél yr orsaf
- Gorsaf Dân Malpas (W/T), personél yr orsaf
- Gorsaf Dân y Fenni (RDS), personél yr orsaf
- Gorsaf Dân Merthyr Tudful (W/T), personél yr orsaf

## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru Mawrth 2017

- Gorsaf Dân y Rhyl (W/T), Rheolwyr Gweithredol, Diogelwch Tân, Sicrwydd Gweithredol, rheolwyr cefnogi'r Orsaf, Rheolwyr Lleol, Rheolwyr Iechyd a Diogelwch, Ymgynghorwyr AD, tîm cefnogi rheolaethol yr Orsaf, Rheolwyr Hyfforddi
- Gorsaf Dân Wrecsam (W/T), personél yr orsaf
- Gorsaf Dân Corwen (RDS), personél yr orsaf
- Gorsaf Dân Bangor (RDS), personél yr orsaf
- Morfa Conwy, Tîm Safonau Gwasanaeth a Phroffesiynol, IaD, rheolwyr AD
- Gorsaf Dân Llanberis (RDS), personél yr orsaf